

Diweddariad cwarterol o argymhellion Adroddiadau Blynyddol

Adolygydd yn Rhagfyr 2018, cyhoeddwyd yn Ionawr 2019



Bob blwyddyn, trwy gyfrwng fy adroddiad blynyddol, rwy'n gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru o ran y materion polisi allweddol yr hoffwn weld camau'n cael eu cymryd yn eu cylch yn ystod y deuddeng mis dilynol. Yn ystod y flwyddyn, byddaf yn dilyn trywydd yr argymhellion hyn trwy gynnal cyfarfodydd ag Ysgrifenyddion a Gweinidogion y Cabinet, swyddogion arweiniol a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Rwyf wedi rhoi sgôr Coch/Ambr/Gwyrdd (RAG) i bob argymhelliad er mwyn mesur y cynnydd yn unol â'r hyn yr wyf wedi galw amdano. Fy asesiad fy hun yw'r sgôr lliwiau, a hynny'n seiliedig ar waith ymgysylltu â'r holl rhanddeiliaid allweddol. Mae'n bwysig nodi nad yw'r sgôr yn asesiad o ba un a yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad ai peidio. Mae'r sgôr lliwiau yn adlewyrchu pa un a fu unrhyw newidiadau o ran polisi ac arfer ai peidio, a'r rheiny'n newidiadau sy'n gwella bywydau plant yng Nghymru, ac sy'n amddiffyn ymhellach eu mwynhad o'u hawliau o dan Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Coch



Dim tystiolaeth o newidiadau o ran polisi ac arfer ers i'r argymhelliad gael ei wneud. Dim gwelliant o ran profiadau'r plant.

Ambr





Peth tystiolaeth o newidiadau o ran polisi ac arfer, ond ni chyflawnwyd yr argymhelliad yn llawn hyd yma.


Gwyrdd






Gweithredwyd yr argymhelliad, a bu newidiadau amlwg ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael gwasanaeth neu gymorth.

Pwnc	Argymhelliad 15 16	Argymhelliad 16 17	RAG	Diweddariad
<p>Pobl ifanc sy'n gadael gofal</p> <p>Adroddiad 'Breuddwydion Cudd'</p>	Ni wnaed argymhelliad ynghylch y pwnc hwn eleni.	<p>Dylai Llywodraeth Cymru gyflawni ei holl ymrwymadau a bennir yn yr adroddiad 'Breuddwydion Cudd', gan gynnwys cymorth cyfartal ar gyfer pob ymadawr gofal, p'un a yw wedi gadael gofal maeth neu ofal preswyl, cyllid ar gyfer cynghorwyr personol i ddarparu cymorth i'r holl ymadawyr gofal hyd nes eu bod yn 25 oed, cyhoeddi gwybodaeth glir am faterion ariannol ar gyfer ymadawyr gofal, a gwarantu cymorth ariannol ar gyfer ymadawyr gofal sy'n dechrau addysg uwch. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd mewn modd gweithredol i'r awdurdodau lleol, ac yn uniongyrchol i'r plant a'r bobl ifanc eu hunain, am ei chynnydd mewn perthynas â'r ymrwymadau hyn.</p>	<p>Ambr</p> 	<p>Rwy'n croesawu buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn cymorth ar gyfer ymadawyr gofal, a hynny mewn ymateb i'm hadroddiad, Breuddwydion Cudd.</p> <p>Yn benodol, mae creu cronfa Dydd Gŵyl Dewi, ynghyd â dyrannu cyllid ychwanegol i'r awdurdodau lleol er mwyn darparu cynghorwyr personol i bob person ifanc cymwys hyd at 25 oed, yn fuddion cadarnhaol y mae pobl ifanc sy'n gadael gofal eisoes yn eu mwynhau.</p> <p>Doedd y bobl ifanc y buon ni'n siarad â nhw yn 2018 ddim i gyd yn ymwybodol o'r datblygiadau ynghylch cefnogaeth ymgynghorydd personol, er ein bod yn nodi'r nifer uchel o bobl ifanc sydd eisoes wedi cyrchu cronfa Dydd Gŵyl Dewi.</p> <p>Mae i'r argymhelliad bedair rhan. Mae'r rhannau nas rhoddwyd ar waith eto yn cynnwys cymorth cyfartal ar gyfer pawb sy'n gadael gofal, gan gynnwys y rheiny sy'n gadael gofal preswyl, ynghyd â gwybodaeth gyhoeddedig glir am gyllid ar gyfer ymadawyr gofal.</p> <p>Mae fy swyddfa yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar y pwyntiau hyn, gan gynnwys gweithredu fel arsylwr yn y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer gofal</p>


				<p>preswyl. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen yn canolbwyntio ar yr argymhelliad ynghylch cymorth cyfartal ar gyfer pawb sy'n gadael gofal, yn ogystal ag argymhellion eraill fy adroddiad ar Ofal Preswyl, ac rwy'n falch o weld y ffocws hwn.</p> <p>Deallaf fod Llywodraeth Cymru yn coladu data ac astudiaethau achos a fydd yn amlygu mantais uniongyrchol y newidiadau sydd wedi cael eu rhoi ar waith eisoes.</p>
Pwnc	Argymhelliad 15 16	Argymhelliad 16 17	RAG	Diweddariad
<p>Pobl ifanc sy'n gadael gofal</p> <p>Treth Cyngor</p>	Ni wnaed argymhelliad ynghylch y pwnc hwn eleni.	Dylai Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen â'i gwaith i eithrio pobl ifanc sy'n gadael gofal rhag talu'r dreth gyngor hyd nes eu bod yn 21 oed, er mwyn cynorthwyo i leddfu tlodi ymhlith ymadawyr gofal.	<p>Ambr</p> 	<p>Mae awdurdodau lleol wedi cymryd camau i eithrio ymadawyr gofal rhag talu treth y cyngor, ac mae rhai hyd yn oed wedi gwneud hynny hyd at 25 oed. Ar hyn o bryd rwy'n ymwybodol o 12 awdurdod lleol sydd wedi rhoi eithriad ar waith, neu sydd wrthi'n gweithio gyda'u bwrdd rhianta corfforaethol neu eu Cabinet i wneud hynny.</p> <p>Byddwn i'n hoffi i bawb sy'n gadael gofal gael yr un gefnogaeth gyda threth cyngor a bydda i'n parhau i alw ar Lywodraeth Cymru i helpu gyda hyn. Rwy'n croesawu'n gynnes yr ymgynghoriad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y llywodraeth ynghylch cyflwyno eithriad o dreth y cyngor i ymadawyr gofal hyd at 25 oed, a byddaf yn cyflwyno ymateb ysgrifenedig.</p>

<p>Mabwysiadu a chyswllt â brodyr a chwiorydd</p>	<p>Ni wnaed argymhelliad ynghylch y pwnc hwn eleni.</p>	<p>Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod hawliau brodyr a chwiorydd i gysylltu â'i gilydd yn cael eu hystyried yn llawn wrth gynllunio gofal mabwysiadu.</p>	<p>Ambr</p> 	<p>Rwy'n nodi bod Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi croesawu'r argymhelliad hwn yn frwd. Mae ymarferwyr yn amlwg yn cydnabod y materion a amlygwyd yn yr adroddiad blynyddol hwn.</p> <p>Cynhaliwyd cyfarfod amlasiantaeth ym mis Gorffennaf 2018, pryd y cytunodd y rhai oedd yn bresennol â'r pwyntiau a godwyd. Fodd bynnag, nid oes cynllun ar hyn o bryd i roi sylw i hynny trwy hyfforddiant a/neu gynyddu ymwybyddiaeth.</p> <p>Mae'r NAS yn ymroddedig i weithio gyda LIC mewn ymateb i'r argymhelliad hwn.</p> <p>Mae hyn wedi arwain at gynnal grŵp ffocws gan Lywodraeth Cymru, er mwyn deall pam nad yw cyswllt siblingiaid o reidrwydd yn cael ei hybu mewn llawer o achosion. Bydd y gwaith hwn yn bwydo i mewn i'r Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol, ac mae canllawiau newydd yn cael eu hystyried.</p> <p>Cafwyd cyllid ychwanegol hefyd ar gyfer Astudiaeth Carfan Fabwysiadu Cymru, i gynnwys edrych ar gyswllt siblingiaid.</p> <p>Cyswllt yw'r flaenoriaeth ar gyfer 2018-19 wrth ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth. Hefyd eleni cyhoeddwyd canllawiau ar gyfer</p>
---	---	--	---	---


				<p>mabwysiadwyr, gan gynnwys adran ar gyswllt.</p> <p>Mae'n bosib nad yw'r bobl ifanc a gododd hyn gyda fi, a llawer o rai eraill tebyg iddyn nhw, wedi gweld unrhyw newid o ran polisi neu ymarfer eto, a dyna pam mae hyn wedi cael ei raddio'n Ambr.</p>
Pwnc	Argymhelliad 15 16	Argymhelliad 16 17	RAG	Diweddariad
Cymorth Mabwysiadu	Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a threfniadau cydweithio rhanbarthol i sicrhau mwy o ddarpariaeth cymorth mabwysiadu, gan ddarparu adnoddau ychwanegol yn ôl y galw.	Ni wnaed argymhelliad ynghylch y pwnc hwn eleni.	<p>Gwyrdd</p> 	<p>Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn parhau i ddatblygu eu dull o ymdrin â gwasanaethau cymorth, a darparodd Llywodraeth Cymru £90,000 ar gyfer datblygu'r 'Fframwaith Cymorth Mabwysiadu' gan yr NAS.</p> <p>Mae gwaith yn parhau yn y cyswllt hwn, ond mae i'w groesawu bod camau cadarnhaol yn cael eu cymryd i roi sylw i fwllch sy'n parhau ar gyfer llawer gormod o blant a'u teuluoedd.</p> <p>Mae'r NAS yn blaenoriaethu cymorth mabwysiadu ac yn rhoi gwybodaeth i'm swyddfa ynghylch cynnydd yn gyson.</p>


Pwnc	Argymhelliad 15 16	Argymhelliad 16 17	RAG	Diweddariad
Gofal preswyl	Ni wnaed argymhelliad ynghylch y pwnc hwn eleni.	Dylai Llywodraeth Cymru gyflawni yn erbyn cynllun gwaith eu Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a sefydlwyd mewn ymateb i'm hargymhellion yn adroddiad 'Y Gofal Cywir'.	Gwyrdd 	<p>Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn dal i gwrdd ac yn ddiweddar mae wedi cyhoeddi cam nesaf ei gynllun gwaith. Mae hyn yn datblygu gwaith pellach ar gasglu data ac angen y farchnad, gwahanol fodolau o ofal, trefniadau Pan fydda i'n Barod ar gyfer gofal preswyl a chanllawiau arfer da ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r ardal.</p> <p>Roeddwn i'n falch bod Llywodraeth Cymru, yn ystod y llynedd, wedi neilltuo cyllid penodol o £100,000 ar gyfer gwaith y grŵp hwn, gan fy mod wedi bod yn pryderu nad oedd yn gwneud cynnydd yn gyflym. Fodd bynnag, pan godais i hyn gyda'r Llywodraeth, yr ymateb ar unwaith oedd darparu mwy o gefnogaeth a chyllid.</p> <p>Rhoddwyd gradd gwyrdd i hyn oherwydd bod y gwaith yn cadw at y targed ac yn gwneud cynnydd; mae bwriad i'r grŵp barhau i gwrdd, felly nid yw wedi gorffen darparu eto, ond mae wedi cyrraedd lle byddwn i'n disgwyl ar hyn o bryd.</p>
Elw mewn Gwasanaethau Gofal	Ni wnaed argymhelliad ynghylch y pwnc hwn eleni.	Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Adran 16 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i gynnwys plant a phobl ifanc wrth ddylunio a darparu gwasanaethau ac i gynyddu amrywiaeth y gwasanaethau nid-er-	Coch 	Hyd yma, nid wyf yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â phlant a phobl ifanc er mwyn clywed eu barn ar y pwnc yma. Yn y cyfamser, fodd bynnag, mae pobl ifanc wedi dod ataf fi ac wedi mynegi pryder eu hunain fod eu darparwyr yn derbyn llawer o arian, ond eu bod yn ansicr ble mae'r arian hwnnw'n mynd.


		<p>elw, fel y gall arian a fuddsoddir yn y gwasanaethau gofal cymdeithasol gael ei wario ar wella'r canlyniadau ar gyfer plant, yn hytrach na sicrhau elw ar gyfer y cyfranddalwyr.</p>	<p>Rwyf wedi rhoi tystiolaeth ar y pwnc hwn i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae eraill hefyd wedi bod yn gwneud hynny, gan gynnwys grŵp o bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Ym mis Tachwedd 2018, cefnogodd PAC yr argymhelliad hwn yn eu hadroddiad ar Blant a Phobl Ifanc sydd â phrofiad o ofal.</p> <p>Rwy'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn casglu gwybodaeth am wahanol fodelau o ofal a chynlluniau peilot a fu ar waith yn Lloegr. Dyma'r cynnydd a wnaed hyd yma gyda'r gwaith hwn. Ni nodwyd bwriad i symud tuag at wasanaethau nid er elw.</p> <p>Er fy mod i'n cydnabod bod rhaid osgoi unrhyw newidiadau sydyn a fydd yn tanseilio sefydlogrwydd y sector, rwy'n credu y byddai gweithio tuag at ddileu elw fel nod polisi tymor hwy yn cael ei groesawu'n gynnes gan bobl ifanc a'r rhai sy'n comisiynu gwasanaethau fel ei gilydd.</p> <p>O ran y ddarpariaeth gofal preswyl ar lefel ehangach, fe wnes i gynnull cyfarfod gydag uwch-swyddogion y llywodraeth o'r gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, llywodraeth leol a chyfiawnder ieuencid ym mis Hydref 2018, i drafod alinio'r</p>
--	--	---	---


Pwnc	Argymhelliad 15 16	Argymhelliad 16 17	RAG	ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion cymhleth ar draws y sectorau hyn. Diweddariad
Eiriolaeth	Dylai'r Llywodraeth weithio gydag ADSS a CLILC i weithredu dull cenedlaethol o ymdrin ag eiriolaeth statudol fel mater o flaenoriaeth, er mwyn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc cymwys ledled Cymru yn derbyn 'cynnig gweithredol' o ran eiriolaeth ac yn cael eu cefnogi i fynegi barn ar y gofal a'r cymorth maen nhw'n eu derbyn.	Rwy'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn monitro gweithrediad y Dull Cenedlaethol o Ymdrin ag Eiriolaeth Statudol er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau arfaethedig yn cyrraedd pawb sydd â hawl i'w derbyn, gan gynyddu tebygolrwydd canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc.	Gwyrdd 	<p>Roedd rhoi'r Dull Cenedlaethol o ymdrin ag Eiriolaeth Statudol ar waith yn argymhelliad yn fy adroddiad blynyddol yn 2015-16, wedi blynyddoedd o waith gyda rhanddeiliaid perthnasol tuag at gyflawni cynnig cyson o ddarpariaeth ar gyfer pob plentyn ledled Cymru. Graddiwyd hyn yn Ambr yn adroddiad y llynedd, gan fod bron popeth yn ei le erbyn mis Mawrth 2017, ond bod hynny heb ei gyflawni'n llwyr.</p> <p>Mae'n bleser gen i nodi bod y Dull Gweithredu Cenedlaethol bellach yn weithredol ar draws yr holl ranbarthau.</p> <p>Rwyf hefyd yn falch bod Llywodraeth Cymru, yn dilyn yr argymhelliad hwn yn adroddiad y llynedd, wedi cynnal gweithgor i fonitro ei weithrediad. Mae'r grŵp hwnnw wedi adolygu'r adroddiadau data ac wedi gwneud newidiadau bach i'r dull o ddarparu'r Cynnig Gweithredol o ran eiriolaeth, er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio yn y ffordd fwyaf addas i blant a phobl ifanc, ac yn eu helpu i gael mynediad i'r gwasanaeth pwysig hwn. Mae hyn yn ei dro yn eu helpu i gyflawni eu hawliau.</p> <p>Rydym ni'n dal i ganfod trwy achosion sy'n dod i'n gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor</p>







Pwnc	Argymhelliad 15 16	Argymhelliad 16 17	RAG	Diweddariad
laith Arwyddion Prydain (BSL)	Ni wnaed argymhelliad ynghylch y pwnc hwn eleni.	Dylai Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol sicrhau cymorth priodol gan y wladwriaeth ar gyfer anghenion cyfathrebu plant a phobl ifanc sy'n fyddar neu sydd â nam ar eu clyw, a'u teuluoedd, gan gynnwys cyfleoedd hygyrch a fforddiadwy i ddysgu laith Arwyddion Prydain (BSL) ar amrywiaeth o lefelau, a chyflogi staff sy'n cyfathrebu'n rhugl trwy BSL mewn ysgolion, er mwyn diwallu anghenion unigolion.	Coch 	<p>nad yw plant cymwys o reidrwydd yn derbyn cynnig eiriolaeth gweithredol yn ymarferol. Unionwyd hyn pan gysyllton ni â'r awdurdod lleol dan sylw, ond byddwn ni'n parhau i fonitro hyn er mwyn canfod unrhyw batrymau neu dueddiadau rhanbarthol.</p> <p>Mae'r angen am wneud cynnydd ar y mater hwn ar frys, a danlinellwyd yn nadansoddiad Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2018 o weithlu anghenion addysgol arbennig awdurdodau lleol, wedi cael ei ategu gan Adroddiad diweddar y Pwyllgor Deisebau er mwyn gwella mynediad i addysg a gwasanaethau trwy gyfrwng laith Arwyddion Prydain.</p> <p>Er fy mod i'n dweud hynny'n wylidwrus, rwy'n falch o weld y Llywodraeth yn derbyn tri o'r pedwar argymhelliad a wnaed yn yr adroddiad hwn, ond rwy'n nodi bod angen mwy o fanylion ac eglurder ynghylch sut gellid eu cyflawni. Mae angen cynllun gweithredu clir, wedi'i gostio, i sicrhau bod anghenion unigolion yn cael eu diwallu. Rwy'n nodi bod effaith derbyn argymhellion y pwyllgor, ar hyn o bryd, yn niwtral o ran cost.</p> <p>Mae angen i'r cynllun gweithredu hwn gynnwys strategaeth benodol ar gyfer cynllunio'r gweithlu a dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon a chynorthwywyr dysgu sy'n</p>

				<p>gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n fyddar neu â nam ar eu clyw.</p> <p>Mae angen hyn ar unwaith, gan nad yw traean o'r gwasanaethau AAA arbenigol yn teimlo, ar hyn o bryd, eu bod yn diwallu gofynion presennol plant a phobl ifanc sydd â nam ar eu clyw. Mae dros hanner y gwasanaethau AAA yn teimlo eu bod yn methu diwallu'r galw presennol trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Dylai'r cynllun hefyd fedru dangos sut bydd yn cynorthwyo i gefnogi agweddau eraill ar fywyd plentyn, gan gynnwys y blynyddoedd cynnar, cyfathrebu â'u rhieni a'u ffrindiau, a chyfranogi mewn gweithgareddau hamdden a bywyd y gymuned.</p>
Pwnc	Argymhelliad 15 16	Argymhelliad 16 17	RAG	Diweddariad
Iechyd Meddwl	Dylai Rhaglen y GIG, Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc, barhau i dderbyn lefelau digonol o arian i gyflawni ei huchelgais a monitro a yw profiadau plant o ofal iechyd meddwl yn gwella.	Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn parhau y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol hon, hyd nes bo'r rhaglen wedi cyflawni ei huchelgeisiau. Cyn i'r rhaglen genedlaethol ddod i ben, mae angen gwreiddio gwelliannau'r rhaglen ar lefel leol, a hynny mewn modd digonol a chyson, fel y gall y byrddau cynllunio rhanbarthol gynnal cynnydd ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer plant ledled Cymru.	Ambr 	<p>Mae'r cyllid ar gyfer T4CYP yn parhau tan fis Hydref 2019, ac rwy'n falch o nodi hynny. Mae cynllun gwaith y flwyddyn olaf wedi cychwyn – mae'r manylion llawn wedi'u nodi'n derfynol a'u cyfleu i'r rhanddeiliaid.</p> <p>Rwyf wedi rhoi gradd Ambr i hyn oherwydd diffyg hyder bod y rhaglen wedi cael ei gwreiddio ar lefel leol eto, ac y byddai rhanbarthau'n gallu symud ymlaen gyda'r gwaith hwn. Mae'r Rhaglen yn cynnwys nifer o lifoedd gwaith, ac mae rhai ohonynt wedi gwneud mwy o gynnydd nag eraill, felly mae'n ddarlun cymysg.</p>


				<p>Rwyf hefyd wedi ystyried adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg <i>Cadernid Meddwl</i> wrth raddio'r argymhelliad hwn. Nid oedd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwn yn rhoi sylw i'r newid sylweddol oedd yn cael ei argymhell o ran y ddarpariaeth. Fodd bynnag, mae'n ganologol bod Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar y Cyd wedi cael ei sefydlu'n ddiweddar, ac rwy'n gobeithio y bydd yn gyfle i ymateb yn well i'r argymhellion yn adroddiad <i>Cadernid Meddwl</i>.</p> <p>Mae'r argymhelliad wedi'i seilio ar wreiddio'r gwaith ar lefel ranbarthol/leol. Yn adroddiad 2017/18 rwy'n galw ar Bartneriaethau Rhanbarthol i gyfuno darpariaeth gofal cymdeithasol a iechyd meddwl i blant. Rwy'n croesawu cyhoeddiadau diweddar ynghylch cyllid trawsffurfiannol yn y maes hwn, mewn rhai rhanbarthau.</p>
Pwnc	Argymhelliad 15 16	Argymhelliad 16 17	RAG	Diweddariad
Iechyd meddwl a llesiant	Dylai rhaglen adolygu'r cwricwlwm 'Dyfodol Llwyddiannus', weithio'n agos gyda rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc y GIG er mwyn hybu dulliau gweithredu ysgol gyfan, sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ymdrin â pherthnasoedd iach, iechyd meddwl a llesiant.	Ni wnaed argymhelliad newydd ynghylch y pwnc hwn eleni; ond roedd yn rhan bwysig o'n polisi craidd a'n gwaith dylanwadu yn ystod y flwyddyn.	Ambr 	<p>Rwyf hefyd wedi ystyried adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg <i>Cadernid Meddwl</i> wrth raddio'r argymhelliad hwn.</p> <p>Rwy'n falch o weld bod Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar y Cyd wedi'i sefydlu'n ddiweddar ar Ddull Ysgol Gyfan o ymdrin â Iechyd Meddwl a Llesiant. Bydd angen i waith y grŵp hwn a'r swyddogion trawsadrannol sy'n ei gefnogi sicrhau bod</p>

				<p>ffocws digonol ar wasanaethau ataliol, gan ymateb i anghenion yn y manau ac ar yr adegau sydd orau i blant a phobl ifanc, a chan sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi i deimlo a chadw'n iach. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ym mis Hydref 2018, ond ni fydd y grŵp rhanddeiliaid sy'n eistedd oddi tano yn cwrdd tan ddiwedd Ionawr 2019.</p> <p>Rwy'n falch o glywed bod Grŵp Rhanddeiliaid Ieuencid Cenedlaethol yn cael ei sefydlu i gefnogi'r gwaith ar Ddull Gweithredu Ysgol Gyfan. Pan gaiff y grŵp hwn ei sefydlu, rwy'n gobeithio y bydd plant a phobl ifanc yn gyfranogwyr gweithredol yn y gwaith hwn, yn cyd-gynhyrchu cynnyrch ac yn rhoi cyngor ac arweiniad i'r rhai sy'n gweithio ar y dull gweithredu ysgol gyfan.</p>
Eiriolaeth Iechyd	Ni wnaed argymhelliad ynghylch y pwnc hwn eleni.	Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod eiriolaeth sy'n ymwneud ag iechyd ar gyfer plant a phobl ifanc o dan 18 oed ar gael ac yn hygyrch i bawb y mae arnynt ei hangen.	<p>Coch</p> 	<p>Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth eiriolaeth mewn lleoliadau iechyd i rai o dan 18 oed, ac nid yw'r wybodaeth am gleifion wedi cael ei diweddarau chwaith.</p> <p>Yr adborth yn fy seminar iechyd plant flynyddol ym mis Mehefin 2018 oedd bod hwn yn parhau'n drefniant ad hoc, ac nad yw'n eglur pwy sydd â'r cyfrifoldeb amdano na beth mae'n ei gynnwys.</p> <p>Bydd fy swyddogion yn cwrdd â swyddogion Llywodraeth Cymru eto ym mis Rhagfyr 2018.</p>

Pwnc	Argymhelliad 15 16	Argymhelliad 16 17	RAG	Diweddariad
Trafnidiaeth	Dylai Llywodraeth Cymru adolygu Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a'r ddarpariaeth statudol a'r canllawiau gweithredol cysylltiedig, er mwyn sicrhau bod pob taith i'r ysgol ac oddi yno yn ddiogel, a bod awdurdodau lleol yn gwbl glir ynghylch eu cyfrifoldebau i sicrhau bod hyn yn digwydd.	Rwy'n annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cymorthdaliadau cludiant cyhoeddus ar gael i blant hyd at 18 oed, heb newid cymhwysedd yn 16 oed.	Ambr 	<p>Erbyn hynny bydd blwyddyn wedi mynd heibio ers y cyfarfod gwreiddiol i drafod y mater hwn.</p> <p>Ym mis Mehefin 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynoded o'r ymatebion i'w hymgyngoriad ar y cynllun Fy Nhocyn Teithio, sy'n darparu gostyngiadau i bobl ifanc 16-18 oed sy'n cofrestru gyda'r cynllun.</p> <p>Mae'r adroddiad hwn yn datgan "nad yw deddfwriaeth gyfredol yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol bod cwmnïau bus yn cynnig gostyngiadau penodol i bobl ifanc 16-18 oed sydd ddim mewn addysg amser llawn".</p> <p>Fodd bynnag, rwy'n falch o nodi bod yr Ysgrifennydd Cabinet wedi cyhoeddi y bydd y terfyn oedran ar gyfer teithio ar y bus am bris gostyngol yn codi i 21.</p> <p>Nid yw'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr wedi cael ei adolygu na'i ddiwygio hyd yma.</p>
Anghenion Dysgu Ychwanegol	Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth newydd a Chôd Ymarfer Cadarn sy'n cyflawni'r ymrwymiad i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.	Dylai Llywodraeth Cymru osod dyletswydd ar yr holl gyrff perthnasol o dan y Ddeddf i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, ac i gynnwys y ddyletswydd hon yn y Bil.	Gwyrdd 	<p>Rwy'n falch bod Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys (Cymru) 2018 wedi cael ei phasio gyda sylw dyledus i CCUHP a CCUHPA ar wyneb y Bil.</p> <p>Byddaf fi'n parhau i weithio gyda swyddogion i sicrhau bod y Côt Ymarfer a'r Rheoliadau yn adlewyrchu'r ddyletswydd hon o ran sylw dyledus, a bod hynny'n dod yn realiti ac yn</p>



				<p>rhan o'r ffordd o feddwl pan wneir penderfyniadau ynghylch darpariaeth o dan y Ddeddf.</p> <p>Byddaf hefyd am sicrhau bod templed y CDU yn adlewyrchu hyn, fel bod hawliau plant yn rhaedru trwodd i agweddau ymarferol y cynllun ar gyfer pob dysgwr unigol.</p>
Pwnc	Argymhelliad 15 16	Argymhelliad 16 17	RAG	Diweddariad
Anghenion Dysgu Ychwanegol	Dylai [Llywodraeth Cymru] gryfhau'r cydlyniant, y ddarpariaeth a'r gefnogaeth sy'n cael eu darparu i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys cyflwyno dyletswyddau statudol i Fyrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau GIG i ddarparu cymorth ac i gryfhau pwerau Tribiwnlys Addysg Cymru.	Dylai Llywodraeth Cymru hefyd gryfhau pwerau Tribiwnlys Addysg Cymru trwy estyn ei gylch gorchwyl i gwmpasu cyrff iechyd.	Gwyrdd 	Bellach bydd gan y Tribiwnlys Addysg bwerau dros gyrff iechyd o dan y Ddeddf, gan gynnwys y gallu i wneud cais am dystiolaeth ac adroddiadau ar gyfer apeliadau.
Gofal Plant	Ni waned argymhelliad ynghylch y pwnc hwn eleni.	Trwy'r cynllun gofal plant peilot ac unrhyw gynllun dilynol, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad yw plant rhieni nad ydynt yn gweithio yn colli allan ar y cynnydd o ran gofal plant sy'n cael ei gynnig i blant rhieni sy'n gweithio.	Coch 	<p>Mae Bil Ariannu Gofal Plant (Cymru) wedi mynd trwy'r craffu ar gyfer cam 1. Fel y'i cyflwynwyd, mae'r Bil yn datgan bod y ddarpariaeth ar gyfer plant rhieni sy'n gweithio yn unig.</p> <p>Rwy'n cefnogi argymhellion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i ehangu geiriad y Bil, er mwyn caniatáu newidiadau a fydd yn sicrhau bod plant rhieni sydd ddim yn gweithio hefyd</p>


			<p>yn gallu cael mynediad i fanteision gofal plant.</p> <p>Fe roddais i dystiolaeth i'r Pwyllgor yn ystod cam 1, ac rwyf hefyd wedi cyhoeddi papur safbwynt ar hyn, sydd i'w weld ar fy ngwefan yma</p> <p>Mae Cam 2 wedi dod i ben; cododd cyfleoedd yn y cam hwn i gefnogi newidiadau fel bod grwpiau ychwanegol o rieni'n cael eu cynnwys yn y cynigion, neu i sicrhau bod trothwy cymhwyster prydau ysgol am ddim yn cyfateb i'r cynnig gofal plant, ond ni phasiwyd y rhain.</p> <p>Mae cyllideb ddrafft 2019/20 yn nodi gostyngiad o £5M i'r gyllideb ar gyfer y cynnig gofal plant oherwydd bod nifer llai na'r disgwyl wedi manteisio arno yn ystod y cyfnod peilot. Nid oes dadansoddiad o'r opsiynau posibl o ran gwario'r £5M yma i hybu hawliau plant o dan y polisi hwn, yn hytrach nag ailddyrrannu'r arian.</p> <p>Mae Adroddiad Gwerthuso, sydd wedi'i gyfyngu i gyflawni'r cynnig cyfredol, wedi cael ei gyhoeddi. Er fy mod yn pryderu y bydd y cynnig yn arwain at fwy o anghydraddoldeb i blant Cymru, rwy'n croesawu'r ffaith bod yr adroddiad yn nodi bod rhieni cymwys ar 'incwm is' yn cael mynediad i'r cynllun. A hefyd bod 88% o'r rhieni yn yr arolwg yn sôn bod ganddyn nhw fwy o arian i'w wario o</p>
--	--	--	--


Pwnc	Argymhelliad 15 16	Argymhelliad 16 17	RAG	Diweddariad
Tlodi Plant	<p>Dylai Llywodraeth Cymru roi arweiniad clir a chadarn i ddileu tlodi plant, trwy ymgysylltu'n gadarnhaol ac yn gydweithredol â Llywodraeth y Deyrnas Unedig, a chyrrff cyhoeddus a phreifat ar draws pob sector, gan gynnwys cyflogwyr.</p> <p>Er mwyn mynd i'r afael â thlodi plant, dylai Llywodraeth Cymru sefydlu a monitro cynllun cyflawni penodol ar gyfer tlodi plant, gyda thargedau a cherrig milltir clir, er mwyn gyrru gweithrediad strategaeth genedlaethol a fydd yn sicrhau nad yw unrhyw blentyn o dan anfantais o ran gwireddu ei hawliau o dan CCUHP.</p>	<p>Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pob dull sydd ar gael iddynt i liniaru tlodi plant, gan gynnwys defnyddio pwerau newydd i godi trethi. Dylai gefnogi awdurdodau lleol i gynnig cymorth pellach mewn meysydd penodol y gwyddys eu bod yn rhoi pwysau ar y teuluoedd tlotaf, gan gynnwys eisiau bwyd yn ystod y gwyliau, costau gwisg ysgol a biliau tanwydd uchel yn y cartref.</p>	<p>Ambr</p> 	<p>ganlyniad i'r cynnig (i raddau amrywiol). Mae'r agweddau hyn yn bwysig i blant sy'n byw ar aelwydydd sy'n dioddef effaith tlodi mewn gwaith.</p> <p>Mae i'w groesawu bod cronfa fynediad PDG i gael ei dyblu i £3.5M. Hyd yma ni ddarparwyd manylion pellach.</p> <p>Cyfeirir at hyn yn y gyllideb ddrafft fel "rhan o becyn o fesurau i helpu i atal tlodi plant", ond mae'n aneglur ar beth mae'r strategaeth gyffredinol sy'n cwmpasu hyn wedi'i seilio.</p> <p>Ym mis Tachwedd 2018 cyhoeddodd Rapporteur Arbennig y CU ynghylch Tlodi Eithafol ddatganiad oedd yn destun pryder ar ôl ymweld â'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys ymweliad â Chymru.</p> <p>Does dim cydlynu ar y dull ariannu i gefnogi teuluoedd sydd o dan bwysau ariannol, ac mae cynigion a grantiau tymor byr yn golygu bod diffyg sicrwydd a chynaliadwyedd o gwmpas y gefnogaeth sy'n cael ei darparu ar hyn o bryd.</p> <p>Ni fu'r cynigion cyllideb yn glir o ran 'y rhai sy'n ennill ac yn colli' wrth symud arian o gwmpas, ac mae diffyg unrhyw Aseiad Effaith ar Hawliau Plant yn golygu nad oes trosolwg o effaith net yr holl benderfyniadau a wnaed.</p>






				<p>Bydd un o'r prosiectau sy'n rhan o'm cynllun gwaith ar gyfer 2017-18 yn cynnwys gweithio gyda phlant, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol i ddarganfod beth sy'n rhoi pwysau arbennig arnyn nhw. Bydda i'n cyflwyno argymhellion pellach yn 2019 ar ôl yr ymgysylltu hwnnw.</p>
--	--	--	--	---

Pwnc	Argymhelliad 15 16	Argymhelliad 16 17	RAG	Diweddariad
Y Cwricwllwm a CCUHP	Ni wnaed argymhelliad ynghylch y pwnc hwn eleni.	Rwy'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod anghenion a lles hirdymor plant yn cael eu diogelu, a hynny trwy sicrhau bod y cwricwllwm newydd yn seiliedig yn amlwg ar Ymagwedd Hawliau'r Plentyn, a bod deilliannau dysgu yn cefnogi pob plentyn i wybod beth yw ei hawliau o dan CCUHP.	Ambr 	<p>Mae'r canlyniadau cyflawni drafft yn cyfeirio at hawliau plant, ond hefyd at gyfrifoldebau. Mae'r hawliau sy'n rhan o CCUHP yn bethau y dylai pob plentyn yng Nghymru eu cael yn ddiamod. Bydda i'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i unioni hyn, a hefyd i ddatblygu egwyddorion arweiniol y cwricwllwm, fel bod ei gyflwyno'n seiliedig ar hawliau plant.</p> <p>Byddaf hefyd yn galw am sicrhau hyn trwy gynnwys sylw dyledus i CCUHP ar wyneb Bil y Cwricwllwm ac Asesu.</p> <p>Ar Ddiwrnod Byd-eang y Plant 2018 fe gyhoeddais rai adnoddau cysylltiedig â'r <a href="#">alwad hon</a>.</p>
Bwlio	Ni wnaed argymhelliad ynghylch y pwnc hwn eleni.	Dylai adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Canllawiau 'Parchu Eraill' roi sylw i brofiadau uniongyrchol a safbwyntiau plant a phobl ifanc ynghylch effaith bwlio ac effeithiolrwydd polisiâu ac arferion cyfredol. Dylai nodi'n glir sut mae'n bwriadu atal a thaclo bwlio yn genedlaethol, ac amlinellu sut bydd y gwaith hwn yn dylanwadu ar ddiwygio'r cwricwllwm a hyfforddi athrawon.	Ambr 	<p>Mae amlinelliad o'r canllawiau ffres wedi cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori ym mis Tachwedd 2018, ac rwy'n falch o weld bod y cyfan heblaw un o'm hargymhellion yn 'Stori Sam' wedi cael effaith. Rwy'n falch o weld bod barn plant a phobl ifanc ynghylch bwlio wedi bod yn rhan hanfodol o ddatblygu'r canllawiau, a bydda i'n ceisio sicrwydd gan y llywodraeth ynghylch sut bydd plant a phobl ifanc yn cael eu galluogi i lywio datblygiad parhaus y pecyn offer.</p> <p>Nid yw'r canllawiau'n cynnwys dyletswydd statudol i gofnodi a monitro pob achos o fwlio. Efallai nad yw'r gyfraith yn gofyn bod</p>

				<p>ysgolion yn cymryd y cam hwn, ond mae'n sicr yn ofynnol gan ein pobl ifanc yng Nghymru.</p> <p>Serch hynny, rwy'n nodi bod yr adolygiad hwn o'r canllawiau yn digwydd ar wahân i ddiwygio'r cwricwlwm, y Cynllun Gweithredu Diogelwch Ar-lein a'r gwaith o ddatblygu Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth ac ar gyfer Cynorthwyo Addysgu.</p>
Pwnc	Argymhelliad 15 16	Argymhelliad 16 17	RAG	Diweddariad
Cyfranogiad pobl ifanc wrth ddiwygio'r cwricwlwm	Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod trefniadau ar waith i gefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn prosesau gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â diwygio addysg.	Ni wnaed argymhelliad ynghylch y pwnc hwn eleni.	<p>Ambr</p> 	<p>Rwyf wedi gwneud ymdrech bendant i gefnogi Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys hwyluso sesiynau'n uniongyrchol gyda swyddogion a phobl ifanc. Nid wyf eto wedi fy modloni bod hyn yn digwydd yn systematig nac fel mater o drefn o fewn y broses hon.</p> <p>Wedi bwlch o ddwy flynedd bron, ailgychwynnwyd yr is-grŵp Rhanddeiliaid ar ymwneud plant a phobl ifanc â'r cwricwlwm, a bu'n cyfarfod ar 13 Medi 2018. Roedd fy swyddfa'n bresennol yn y cyfarfod hwn. Mae'n gadarnhaol gweld bod cyfarfodydd pellach o'r grŵp wedi cael eu trefnu ar gyfer y flwyddyn nesaf, ond o ystyried amseriadau'r cwricwlwm, mae'n ymddangos mai prin fydd y cyfle i gynnwys pobl ifanc yn y broses ddylunio.</p>

Pwnc	Argymhelliad 15 16	Argymhelliad 16 17	RAG	Diweddariad
Dewis Addysgu Adref	Dylai'r Llywodraeth gryfhau'r gofynion bod rhieni'n cofrestru fel rhai sy'n dewis addysgu eu plant gartref, a bod pob plentyn y dewiswyd eu haddysgu gartref yn cael eu gweld gan weithiwr proffesiynol o leiaf unwaith y flwyddyn, er mwyn medru rhoi barn ar eu profiadau addysgol.	Rwy'n dal o'r farn bod angen i Lywodraeth Cymru newid y canllawiau cyfredol fel bod ganddyn nhw rym statudol, a chynnwys cofrestr orfodol ar gyfer pob plentyn sy'n cael eu haddysgu gartref, er mwyn sicrhau nad ydynt yn syrthio "oddi ar radar" hyd yn oed y gwasanaethau cyffredinol. Wrth ddiwygio'r canllawiau, mae hefyd yn bwysig bod pwerau clir yn cael eu cynnwys i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn gweld plant ac yn siarad â nhw'n uniongyrchol am eu haddysg eu hunain.	Coch 	<p>Oherwydd amserlen y gwaith hwn, gan fod Bill Cwricwlwm ac Asesu drafft i gael ei gyhoeddi yn nhymor y gwanwyn 2019, mae'n bosibl bod y cyfle i gyd-gynhyrchu'r Bil gyda phobl ifanc wedi mynd heibio, gwaetha'r modd.</p> <p>Ers i'r argymhelliad hwn gael ei wneud, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi gwneud datganiad yn y Senedd ym mis Ionawr 2018 yn amlinellu'r bwriad i ymgynghori ar newidiadau i ddeddfwriaeth eilaidd er mwyn cryfhau pwerau presennol awdurdodau lleol.</p> <p>Hyd yma ni chyflwynwyd ymgynghoriad, a'r amserlen a ragwelir ar gyfer hyn yw gwanwyn 2019.</p> <p>Roedd cyfres o gyfarfodydd a gohebiaeth rhwng fy swyddfa a Llywodraeth Cymru rhwng Mehefin a Thachwedd 2018 wedi ceisio egluro bwriad y polisi a fydd yn llywio'r ymgynghoriad, er mwyn sicrhau bod bob plentyn yn hysbys, yn cael eu gweld, ac yn cael trafodaeth am yr addysg maen nhw'n ei derbyn, fel bod modd gwrandao arnyn nhw a sicrhau eu bod yn derbyn eu holl hawliau.</p> <p>Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'm hadroddiad blynyddol ar gyfer 2017-18 ar 30 Tachwedd, yn derbyn fy nhri phrawf ar gyfer y polisi hwn. Rydw i'n monitro sut mae'r ymrywiad hwn yn cael ei weithredu.</p>

Pwnc	Argymhelliad 15 16	Argymhelliad 16 17	RAG	Diweddariad
Ecsbloetio Plant yn Rhywiol	Ni wnaed argymhelliad ynghylch y pwnc hwn eleni.	Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod data'n cael ei gasglu'n gyson mewn perthynas ag Ecsbloetio Plant yn Rhywiol ledled Cymru er mwyn darparu darlun cenedlaethol o'r heriau sy'n ein hwynebu yn y maes hwn. Dylai ddadansoddi'n fanwl a gweithredu ar sail yr heriau a'r bylchau a nodwyd gan y data cenedlaethol.	Ambr 	<p>Rwy'n cydnabod bod Llywodraeth Cymru, gyda chydweithrediad Awdurdodau Lleol a chyrrff cyhoeddus eraill, wedi cymryd camau rhagweithiol i ymateb i'r argymhelliad hwn. Cynhaliwyd peilot casglu data a gwnaed ymgais i safoni'r wybodaeth a gasglir.</p> <p>Fodd bynnag, er gwaethaf yr ymdrechion hyn rwy'n deall bod anghysondeb cofnodi yn parhau, ac mae angen rhoi sylw i hynny. Mae adolygu'r canllawiau ynghylch Ecsbloetio Plant yn Rhywiol yn cyflwyno cyfleoedd a heriau o ran ymateb yn llawn i'r argymhelliad hwn.</p> <p>Byddaf yn monitro cynnydd y gwaith hwn yn fy rôl fel cadeirydd ar y Ford Gron sy'n ymdrin ag Ecsbloetio Plant yn Rhywiol.</p>
Senedd Ieuenctid	Er nad oes dyletswydd ddeddfwriaethol arnaf fi i gyflwyno argymhellion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, rwyf am ategu fy mwriad i bwysu am ailsefydlu gofod democrataidd cenedlaethol i bobl ifanc, ar ffurf cynulliad ieuenctid. Rwy'n gwbl ymroddedig i weithio gyda phobl ifanc a'r Cynulliad Cenedlaethol i wireddu'r uchelgais hon.	Ni wnaed argymhelliad ynghylch y pwnc hwn eleni.	Gwyrdd 	<p>Rwy'n falch o weld y datblygiadau parhaus ynghylch y Senedd Ieuenctid, ac rwyf wedi bod yn rhan o weithgorau sydd â'r nod hwnnw.</p> <p><b>Mae'n gadarnhaol gweld cystadleuaeth am bob sedd yn yr Etholiad.</b></p> <p><b>Bydd y Senedd yn eistedd am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2019.</b></p>

Pwnc	Argymhelliad 15 16	Argymhelliad 16 17	RAG	Diweddariad
Amddiffyniad cyfartal	Dylid cyflwyno bil i'r Cynulliad cyn gynted â phosibl i ddileu amddiffyniad 'cosb resymol'.	Ni wnaed argymhelliad newydd ynghylch y pwnc hwn eleni; ond roedd yn rhan bwysig o'n polisi craidd a'n gwaith dylanwadu yn ystod y flwyddyn.	Ambr 	Mae'r argymhelliad hwn yn cael ei ailadrodd yn fy adroddiad blynyddol ar gyfer 2017-18.  Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno Bil fel rhan o raglen ddeddfwriaethol 2018-19, yn dilyn ymarferiad ymgynghori yn 2018.